

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Atodiad A i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd

Dyddiad: 10 Hydref 2024



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



The Scottish
Government
Riaghaltas na h-Alba



Department of
Agriculture, Environment
and Rural Affairs

An Roinn

Talmhaíochta, Comhshaoil
agus Gnóthaí Tuaithe

Depairtment o'

Fairmin, Environment
an' Kintra Matthers

OGL

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn:

JFSAmendment@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Cyd-destun	4
Diben yr ymgynghoriad hwn	5
Diwygiadau arfaethedig i Atodiad A i'r JFS	7
Datblygu FMPs yn y dyfodol	14
Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth.....	14
Cwestiynau'r ymgynghoriad.....	14
Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn	15
Cyfnod yr Ymgynghoriad	15
Ymatebion.....	16
Ymholiadau.....	16
ATODIAD 1: Drafft Ymgynghorol o'r Diwygiadau Arfaethedig i Atodiad A y JFS	17
ATODIAD 2: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	24

Cyd-destun

Mae angen i ni reoli ein stociau pysgod gwerthfawr yn gynaliadwy, gan gefnogi pysgotwyr y dyfodol ochr yn ochr â'r amgylchedd morol. Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf) yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwneud hyn ac mae'n cynnwys wyth amcan yn ymwneud â physgodfeydd.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd (yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon) amlinellu polisiâu mewn Cyddatganiad ar Bysgodfeydd (JFS) ar gyfer cyflawni'r amcanion yn ymwneud â physgodfeydd, neu gyfrannu at eu cyflawni. Cyhoeddwyd y JFS cyntaf ar 23 Tachwedd 2022.

Un o'r dulliau allweddol o wireddu'r dyheadau polisi a nodir yn y JFS yw Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs). Mae'n rhaid i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd baratoi a chyhoeddi'r FMPs a restrir yn Atodiad A i'r JFS yn unol â'r dyddiadau cyhoeddi cysylltiedig.

Mae'r Ddeddf yn diffinio FMP fel dogfen sy'n amlinellu'r polisiâu sydd â'r nod o adfer un neu fwy o stociau pysgod môr i lefelau cynaliadwy, neu eu cadw ar lefelau cynaliadwy. Bydd pob cynllun yn nodi'r stoc/stociau, y math o bysgota a'r ardal ddaearyddol a gwmpesir.

Mae'r FMP yn amlinellu polisiâu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein stociau pysgod. Mae'n rhaid i awdurdodau polisi pysgodfeydd arfer swyddogaethau perthnasol yn unol â'r polisiâu yn y JFS a'r FMP oni bai bod newid perthnasol mewn amgylchiadau yn nodi fel arall.

Bydd pob FMP yn nodi pa fesurau a fydd yn cael eu defnyddio i gyflawni ei bolisiau. Gall mesurau o'r fath gynnwys rheoliadau presennol neu rai newydd, offerynnau statudol, mesurau technegol, neu lwybrau anstatudol megis cynlluniau ymchwil, cytundebau gwirfoddol, neu godau ymddygiad. Bydd yr union fecanweithiau a ddefnyddir yn dibynnu ar y polisiâu a nodir yn y cynllun a, lle bo'n briodol, byddant yn cael eu gorfodi gan yr awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol perthnasol¹.

¹ Yn unol â diffiniad adran 10(5) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, yr awdurdodau hyn yw (a) yr Ysgrifennydd Gwladol, (b) y Sefydliad Rheoli Morol (MMO), (c) Gweinidogion yr Alban, (d) Gweinidogion Cymru, ac (e) adran Gogledd Iwerddon. Mae'r term 'awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol' yn wahanol i 'awdurdodau polisi pysgodfeydd' gan ei fod yn cynnwys yr MMO. Mae'r MMO yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, gyda chyfrifoldeb am gynllunio a thrwyddedu gweithgareddau yn nyfroedd Lloegr o 0-200 milltir fôr, ac eithrio gweithgareddau pysgodfeydd o fewn 0-6 milltir fôr sy'n gyfrifoldeb yr IFCA's. Mae gan yr MMO rai cyfrifoldebau yn y DU hefyd.

Mae themâu pwysig yn y JFS yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau cyfranogol, ac mae Adran 5 o'r JFS yn ymrwmo'r awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol i weithio gyda rhanddeiliaid i baratoi, cyhoeddi a monitro FMPs.

Hefyd, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda chyrrff cyflawni a rhanddeiliaid perthnasol i weithredu'r polisïau a nodir yn yr FMPs.

Diben yr ymgynghoriad hwn

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau polisi pysgodfeydd esbonio yn y JFS sut maent yn bwriadu defnyddio FMPs i gyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, amcanion pysgodfeydd y Ddeddf. Rhaid iddynt ddarparu manylion pob cynllun gan gynnwys pa FMPs sy'n cael eu cynnig a pha rai sydd mewn grym; pa awdurdod/awdurdodau sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi pob FMP; pa stociau, math o bysgota ac ardal ddaearyddol sydd wedi'u cynnwys ym mhob FMP; a'r amserlen ar gyfer cyhoeddi pob cynllun.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y manylion hyn a nodir yn Atodiad A i'r JFS. Yn benodol, rydym yn edrych ar amserlenni cyflawni FMP. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau polisi pysgodfeydd gyflawni FMPs yn unol â'r amserlenni a bennir yn y JFS. Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw cydnabod y rhwymedigaeth hon a sicrhau bod rhaglen gyflawni FMPs yn bodloni ei hamserlen gyhoeddi statudol.

Mae FMPs yn offerynnau newydd iawn, ac mae'r rhaglen waith hon yn cael ei chydabod fel un uchelgeisiol. Mae natur yr hyn y mae FMPs yn ceisio ei gyflawni, a'r broses ar gyfer eu datblygu, yn gymhleth ac mae pob cynllun yn unigryw.

Rydym wedi dysgu gwersi pwysig o'r broses o gyhoeddi'r pump FMP cyntaf (ym mis Rhagfyr 2023) ac wrth i ni barhau i ddatblygu FMPs eraill. Er mwyn gwneud y broses ddatblygu, ac yn y pen draw, yr FMPs a gyhoeddir, mor gadarn â phosibl, rydym wedi gweld y bydd angen rhagor o amser. Y rheswm am hyn yw bod angen darparu digon o amser i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r FMPs, gan gynnwys mewnbwn amlasiantaethol, darparu ar gyfer cynnal asesiadau, er enghraifft, Aseiad Amgylcheddol Strategol, ac ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid (yn ystod cam datblygu a chymau gweithredu pob FMP).

Mewn achosion lle mae ein dull rheoli eisoes wedi'i sefydlu'n dda, a bod polisïau allweddol i sicrhau rhagor o welliannau eisoes yn cael eu gweithredu, rydym yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio FMPs i gynyddu a gwella tryloywder yn ymwneud â chyflawni. Rydym am sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael digon o amser i ymgysylltu, a bod pob

awdurdod polisi pysgodfeydd yn ystyried unrhyw effeithiau posibl, er mwyn amddiffyn yn erbyn canlyniadau anfwriadol.

Mae amgylchiadau eraill, gan gynnwys oedi'r gwaith oherwydd Etholiad Cyffredinol y DU 2024, a newidiadau i gyngor gwyddonol, wedi effeithio ar yr amserlenni ar gyfer rhai FMPs. Hefyd, dylid nodi bod gweithredu'r cynlluniau cyhoeddedig yn dasg sylweddol sy'n rhan allweddol o gyflwyno'r rhaglen ehangach a sicrhau canlyniadau dymunol FMPs.

O ganlyniad i'n profiad hyd yma, mae wedi dod yn amlwg nad oes modd i ni bellach gyhoeddi'r FMPs sy'n weddill yn unol â'r amserlen wreiddiol yn Atodiad A i'r JFS. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r FMPs y mae angen newid eu hamserlenni cyhoeddi yn ein barn ni.

Ar sail yr hyn rydym wedi'i ddysgu ym mhob cam o'r broses ddatblygu hyd yn hyn, credwn fod modd cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i'r dyddiadau cyhoeddi.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn, mae gwaith yn parhau ym mhob un o'r awdurdodau polisi pysgodfeydd i ddatblygu FMPs a restrir yn Atodiad A i'r JFS (yn amodol ar newidiadau sy'n cael eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn) a gweithredu'r FMPs cyntaf a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf. Bydd y camau nesaf yn symud ymlaen cyn gynted â phosibl. Yn wir, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr FMPs yn cael eu cyflawni cyn y dyddiadau cyhoeddi diwygiedig a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, ac ni fydd unrhyw leihad yn yr ystod o gynlluniau sydd i'w cyflwyno.

Wrth i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r fframwaith FMP newydd hwn fynd rhagddo, mae wedi rhoi syniadau newydd i ni am sut dylid cyflawni'r FMPs. Mae ymgynghori ar ddiwygio'r dyddiadau ar gyfer cyhoeddi FMPs yn gyfle i wneud ambell i newid technegol a newidiadau eraill sy'n helpu i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn cyd-fynd â realiti rheoli pysgodfeydd, rhwymedigaethau awdurdodau polisi pysgodfeydd, a sicrhau bod yr FMPs yn fwy cadarn nawr ac yn yr hirdymor. Mae'r cynigion hyn yn ymdrin ag ystod o faterion gan gynnwys ymestyn y mathau o stoc ac ystyried cyngor diweddar gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr.

Yn ogystal, mae FMP newydd yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei gynnig, a gofynnir am farn ynghylch a ddylai Gweinidogion Cymru barhau fel awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi'r FMPs hynny sy'n cwmpasu parth Cymru yn unig.

Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar y materion yn yr ymgynghoriad hwn fel y maent yn berthnasol i Atodiad A i'r JFS yn unig.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol iawn i'r canlynol:

- Unigolion, grwpiau neu fusnesau sy'n ymwneud â'r sectorau pysgota, bwyd môr neu ddyframaeth;
- Unigolion, grwpiau neu fusnesau eraill sy'n defnyddio'r môr, er enghraifft, diwydiannau morol fel olew a nwy, ynni adnewyddadwy ar y môr a chyrrff hwylio; a
- Grwpiau cenedlaethol a lleol â buddiant, fel sefydliadau anllwywodraethol amgylcheddol a hamdden, a ffederasiynau diwydiant.

Hefyd, mae fersiwn ddrafft o'r ymgynghoriad² wedi'i gosod (yn unol â pharagraff 3(1) o Ran 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf) gerbron Senedd y DU, Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Gall pob deddfwrfa basio penderfyniad neu wneud argymhelliad yn ymwneud â'r fersiwn ddrafft o'r ymgynghoriad. Os oes penderfyniad yn cael ei basio neu argymhelliad yn cael ei wneud, yna rhaid i'r awdurdod polisi pysgodfeydd perthnasol gyflwyno datganiad gerbron ei ddeddfwrfa sy'n amlinellu ei ymateb.

Diwygiadau arfaethedig i Atodiad A i'r JFS

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig diwygio Atodiad A i'r JFS trwy wneud newidiadau i'r rhestr o FMPs arfaethedig a'r dyddiadau ar gyfer eu cyhoeddi, gwneud nifer o ddiwygiadau technegol a diwygiadau eraill i FMPs arfaethedig, ychwanegu FMP newydd, a gwneud newidiadau i'r awdurdodau sy'n gyfrifol am rai o'r cynlluniau.

Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi ystyried a oes angen diweddarau'r Asesiad Effaith Naratif a gwblhawyd ar gyfer y JFS. Rydym o'r farn na fydd y diwygiadau a gynigir i Atodiad A yn newid yr effeithiau a nodwyd yn wreiddiol gan fod y diwygiadau yn canolbwyntio ar Atodiad A yn unig ac nid ydynt yn gwneud newidiadau i'r polisiau FMP yn y JFS, a bydd pob FMP yn parhau i fod yn destun asesiad effaith wrth gael ei baratoi.

a) Newid dyddiadau ar gyfer cyhoeddi FMP

Nid yw 37 o'r FMPs a restrir yn Atodiad A i'r JFS wedi'u cyhoeddi eto. Ar hyn o bryd, mae dyddiadau cyhoeddi gwahanol wedi'u pennu ar gyfer 35 o'r cynlluniau hyn, fel y gwelir yn Nhabl 1 isod.

Oherwydd y rhesymau a nodir yn yr adrannau uchod ac isod, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig diwygio'r dyddiadau ar gyfer cyhoeddi pum cynllun dan arweiniad Defra i ddiwedd 2025, ar gyfer 29 o gynlluniau o dan arweiniad Gweinidogion yr Alban/Defra a DAERA i ddiwedd 2026, ac un cynllun dan arweiniad Cymru i ddiwedd 2028.

² Diffinnir yn Neddf Pysgodfeydd 2020 fel drafft o'r ddogfen berthnasol sy'n golygu naill ai'r JFS neu ddiwygiadau i'r JFS

Os yw'r newidiadau arfaethedig hyn yn cael eu cyflwyno yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd angen i'r awdurdod/awdurdodau cyfrifol baratoi a chyhoeddi eu FMPs yn unol â'r amserlen gyhoeddi ddiwygiedig.

Tabl 1

Awdurdod Arweiniol	Teitl FMP	Cyfnod cyflawni arfaethedig fel y'i cyhoeddwyd yn Atodiad A i'r JFS	Cyfnod cyflawni arfaethedig newydd i'w gynnwys yn Atodiad A i'r JFS diwygiedig
22 FMP dan arweiniad Gweinidogion yr Alban	<ul style="list-style-type: none"> • Penfras Môr y Gogledd • Penfras Arfordir Gorllewin yr Alban (cynnig uno'r ddau FMP uchod i greu un FMP Penfras Silff y Gogledd, gweler isadran C isod) • Penfras yr Iwerydd • Hadog Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban • Hadog yr Iwerydd • Gwyniad Môr Arfordir Gorllewin yr Alban • Gwyniad Môr y Gogledd • Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban • Cegddu Silff y Gogledd • Maelgi/Môr-lyffant Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban • Lleden Fair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban • Honos Silff y Gogledd • Cimwch Norwy Môr y Gogledd • Cimwch Norwy Arfordir Gorllewin yr Alban • Macrell Silff y Gogledd • Penwaig yr Iwerydd/Llychlyn • Penwaig Môr y Gogledd • Penwaig Arfordir Gorllewin yr Alban (a Clyde) • Pysgodyn Arian Mawr Môr y Gogledd • Pysgodyn Arian Mawr Gorllewin yr Alban • Swtan Glas Silff y Gogledd • Marchfacrell Môr y Gogledd 	2022 - 2024	2022 - 2026

Awdurdod Arweiniol	• Teitl FMP	Cyfnod cyflawni arfaethedig fel y'i cyhoeddwyd yn Atodiad A i'r JFS	Cyfnod cyflawni arfaethedig newydd i'w gynnwys yn Atodiad A i'r JFS diwygiedig
5 FMP dan arweiniad Defra	<ul style="list-style-type: none"> • Cocos • Cregyn y Frenhines • Pysgod Dyfnforol Di-Gwota De Môr y Gogledd • Morgathod De Môr y Gogledd a Sianel Lloegr • Corbennog Môr y Gogledd a Sianel Lloegr 	2022 - 2024	2022 - 2025
4 FMP dan arweiniad Defra	<ul style="list-style-type: none"> • Pysgod Dyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr • Pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr • Merfog Du (cynnig i'w ailenwi'n Ferfog, gweler is-adran C isod) • Gwrachen y môr 	2023 - 2025	2023 - 2026
2 FMP dan arweiniad DAERA	<ul style="list-style-type: none"> • Pysgod Dyfnforol Môr Iwerddon • Glannau Gogledd Iwerddon (cynnig i'w ailenwi'n Bysgod Cregyn Di-Gwota Gogledd Iwerddon, gweler is-adran C isod) 	2022 - 2024	2022 – 2026
1 FMP dan arweiniad DAERA	<ul style="list-style-type: none"> • Pelagig Môr Iwerddon 	2022 - 2023	2022 - 2026
1 FMP dan arweiniad Gweinidogion Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cregyn Moch yn nyfroedd Cymru 	2022 - 2027	2022 - 2028

b) Newidiadau technegol a newidiadau eraill i FMPs arfaethedig

Yn ogystal â'r newidiadau i'r dyddiadau cyflawni terfynol a nodir uchod, mae nifer o ddiwygiadau technegol a diwygiadau cymharol fach eraill yn cael eu cynnig i nifer o'r FMPs a restrir yn Atodiad A i'r JFS. Mae manylion y newidiadau hyn i'w gweld yn y tabl isod.

Tabl 2

FMP	Diwygiadau arfaethedig	Sail
<ul style="list-style-type: none"> • Rhywogaethau Pysgod Dyfnforol Di-Gwota De Môr y Gogledd <p>(Dyfroedd Lloegr)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ychwanegu'r Morgi Llyfn at y rhywogaethau a restrir. 	<p>Mae rhanddeiliaid wedi mynegi awydd i sicrhau cysondeb â'r rhestr rhywogaethau yn FMP Sianel Lloegr gan nad oedd unrhyw FMP arall yn ardal De Môr y Gogledd wedi'i chynnwys.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Merfog Du <p>(Dyfroedd Lloegr)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ychwanegu'r Merfog Eurben at y rhywogaethau a restrir. - Newid teitl yr FMP i "FMP Merfogiaid". 	<p>Codwyd y mater hwn yn rheolaidd mewn trafodaethau cwmpasu MMO gan fod y pysgodyn yn cael ei dargedu a'i bysgota gan yr un bobl sy'n dal y rhywogaethau eraill mewn pysgodfa gymysg, ac felly mae'n cyd-fynd yn naturiol â'r FMP. Mae enw'r cynllun wedi'i newid yn sgil ychwanegu'r merfog eurben at y rhywogaethau a restrir.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • FMP Gwrachen y môr <p>(Dyfroedd Lloegr)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ychwanegu'r wrachen resog at y rhywogaethau a restrir. 	<p>Codwyd y mater hwn yn rheolaidd mewn trafodaethau cwmpasu MMO gan fod y pysgodyn yn cael ei dargedu a'i bysgota gan yr un bobl sy'n dal y rhywogaethau eraill mewn pysgodfa gymysg, ac felly mae'n cyd-fynd yn naturiol â'r FMP.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Macrell Silff y Gogledd • Swtan Glas Silff y Gogledd • Cegddu Silff y Gogledd <p>(Cyd-gynlluniau'r DU dan arweiniad Gweinidogion yr Alban)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ymestyn cwmpas daearyddol yr FMP i gynnwys ardal ICES 7f. 	<p>Cywiro gwall teipograffeg yn Atodiad A i'r JFS a gyhoeddwyd mewn perthynas ag ardaloedd ICES.</p> <p>Y bwriad gwreiddiol oedd y dylai'r cynlluniau hyn ar gyfer silff y Gogledd gwmpasu 7f hefyd, ond hepgorwyd yr ardal hon yn anfwriadol o dabl Atodiad A i'r JFS a gyhoeddwyd. Mae'r 3 FMP hyn eisoes yn cael eu paratoi ar y sail bod ardal 7f wedi'i chynnwys h.y. mae'r gwaith a'r dystiolaeth wedi'u cwblhau yn gywir i gynnwys is-raniad 7f.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Lleden Fair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban <p>(Cyd-gynllun y DU dan arweiniad Gweinidogion yr Alban)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ymestyn cwmpas daearyddol yr FMP i gynnwys ardal ICES 6b. 	<p>Oherwydd diffyg aliniad rhwng ardaloedd stoc fiolegol lleden fair a'r ardaloedd rheoli TAC, mae'n gwneud synnwyr o safbwynt rheoli i ystyried pob is-ardal ac is-raniad ICES (4, 6a, 6b) yn yr FMP.</p> <p>Mae'r FMP wedi'i baratoi ar y sail bod ardal 6b wedi'i chynnwys h.y. mae'r gwaith i ddatblygu'r cynllun a'r dystiolaeth sylfaenol yn cynnwys is-raniad 6b.</p>

FMP	Diwygiadau arfaethedig	Sail
<ul style="list-style-type: none"> • Glannau Gogledd Iwerddon (Dyfroedd Gogledd Iwerddon) 	<ul style="list-style-type: none"> - Ymestyn cwmpas daearyddol yr FMP i gynnwys holl barth Gogledd Iwerddon. - Newid teitl yr FMP i "FMP Pysgod Cregyn Di-Gwota Gogledd Iwerddon". 	<p>Mae'r diwygiad yn galluogi DAERA i baratoi a chyhoeddi cynllun ar gyfer stociau pysgod cregyn di-gwota yn ei holl ddyfroedd, gan gynnwys yr ardal ar y môr, yn hytrach na dim ond yr ardal sy'n cwmpasu 0-12 milltir forol, fel y bwriadwyd yn wreiddiol.</p> <p>O ganlyniad, mae teitl yr FMP wedi'i newid hefyd er mwyn adlewyrchu'r newid i'r ardal a gwmpesir gan yr FMP.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Penfras Môr y Gogledd • Penfras Gorllewin yr Alban <p>(Cyd-gynlluniau'r DU dan arweiniad Gweinidogion yr Alban)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Uno'r FMPs arfaethedig hyn yn un cynllun o dan yr enw newydd "FMP Penfras Silff y Gogledd". 	<p>Gan adlewyrchu adroddiad meincnod 2023, mae ICES bellach yn asesu penfras fel stoc Silff y Gogledd. Felly, rydym yn cynnig cyfuno Penfras Môr y Gogledd a Phenfras Gorllewin yr Alban yn un FMP.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Testun rhagymadrodd 	<ul style="list-style-type: none"> - Newid 'Gweinyddiaethau'r DU' i 'awdurdodau polisi pysgodfeydd' (FPAs), gan ychwanegu'r acronym wrth gyfeirio at FPAs mewn manau eraill. - Ychwanegu'r geiriau canlynol at ddisgrifiad o "Awdurdod neu Awdurdodau sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi'r cynllun": rhestrir y llywodraethau / adrannau sy'n gysylltiedig â phob FPA yn y tabl. 	<p>Gwella cywirdeb y testun yn y rhagymadrodd i'r tabl yn Atodiad A, yn unol â therminoleg Deddf Pysgodfeydd 2020.</p>

c) FMP newydd ar gyfer Gwichiaid yng Ngogledd Iwerddon

Cynigir FMP newydd ar gyfer rheoli'r bysgodfa gwichiaid ym mharth rhynglanwol Gogledd Iwerddon.

Mae'r JFS yn amlinellu meini prawf ar gyfer pennu stociau sydd i'w cynnwys mewn FMP. Os oes perygl o orbysgota heb gamau gweithredu rheoli, mae hyn yn cynnwys gwerth economaidd y stociau a'i gyfraniad at gymunedau arfordirol, yn ogystal â'r effaith ar ecosystemau.

Ar hyn o bryd, ni reoleiddir gweithgarwch casglu gwichiaid ym mharth rhynglanwol Gogledd Iwerddon. Mae argaeledd tystiolaeth wyddonol ynghyd â thystiolaeth sy'n ymwneud â gwerth economaidd y bysgodfa hon ac effaith y gweithgarwch ar ecosystemau morol yn sail i'r cynnig am FMP annibynnol ar gyfer y rhywogaeth hon. Byddai'r FMP newydd hwn yn galluogi DAERA i fwrw ymlaen â'r gwaith mewn ymateb i'w ymgynghoriad yn 2022 ar fesurau rheoli arfaethedig ar gyfer casglu pysgod cregyn â llaw yn ardal rhynglanwol Gogledd Iwerddon.

Tabl 3

Awdurdod Arweiniol	Teitl FMP	Cyfnod cyflawni arfaethedig fel y'i cyhoeddwyd yn Atodiad A i'r JFS	Cyfnod cyflawni arfaethedig newydd i'w gynnwys yn Atodiad A i'r JFS diwygiedig
DAERA	<ul style="list-style-type: none"> Gwichiaid 	Amherthnasol	2024-2027

d) Newidiadau i'r awdurdodau sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi FMPs

Mae pob FMP yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan un neu fwy o'r awdurdodau polisi pysgodfeydd fel y'u rhestrir yn Atodiad A i'r JFS. Mewn achosion lle mae FMP yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan fwy nag un awdurdod, mae Atodiad A i'r JFS yn nodi'r Awdurdod Cydlynu, sef yr awdurdod polisi pysgodfeydd sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith paratoi a rheoli'r cynllun ar ran yr awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill sy'n gweithredu ar y cyd.

Rydym wedi manteisio ar y cyfle hwn i ystyried a yw'r awdurdodau polisi pysgodfeydd fel y'u rhestrir yn Atodiad A yn parhau i fod yn berthnasol i bob cynllun o ystyried yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'r broses FMP hyd yn hyn.

Rydym yn fodlon bod y weithdrefn a ddilynwyd i nodi'r awdurdodau a restrir yn Atodiad A yn briodol. Fodd bynnag, yn dilyn profiad y ddwy flynedd ddiwethaf rydym bellach yn credu bod Gweinidogion Cymru wedi'u rhestru fel awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi nifer o'r Cyd-gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd y mae Gweinidogion yr Alban yn Awdurdod Cydlynu ar eu cyfer ac nad ydynt yn berthnasol i barth Cymru na'r dyfroedd cyfagos.

O ganlyniad, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig na ddylai Gweinidogion Cymru fod yn awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi nifer o'r cyd-gynlluniau sy'n cael eu cydlynu gan Weinidogion yr Alban. Dangosir hyn yn Atodiad 1 lle nad yw Gweinidogion Cymru wedi'u rhestru bellach yn erbyn 18 o gynlluniau.

Credwn mai'r awdurdodau hynny sydd â chyfrifoldebau rheoleiddio neu fuddiant uniongyrchol mewn pysgodfeydd yn yr ardaloedd sydd â stociau a gwmpesir gan yr FMP ddylai ddylanwadu ar gamau gweithredu rheoli yn ymwneud â gorbysgota, agweddau economaidd-gymdeithasol a rhyngweithio ecosystemau. Mae buddiant pysgodfeydd uniongyrchol yn cynnwys y tebygolrwydd y bydd llongau awdurdod yn pysgota yn yr ardaloedd hyn, neu y bydd dyfroedd yr awdurdod yn agos at yr ardaloedd hyn.

Er y gall llongau o Gymru bysgota mewn ardaloedd y tu allan i barth Cymru a fydd yn cael eu heffeithio gan yr FMPs hynny, rydym am gymryd ymagwedd gymesur sy'n adlewyrchu'r ffaith mai anaml y mae llongau o Gymru yn targedu'r rhywogaethau sy'n destun y cynlluniau hyn. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb â'r FMPs eraill a restrir, lle nad oes gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb ar y cyd oherwydd bod cwmpas daearyddol yr FMP y tu allan i barth Cymru yn gyfan gwbl.

Felly, mae'n briodol bod Gweinidogion Cymru yn parhau i ymwneud yn uniongyrchol â datblygu'r dull rheoli a'r broses o baratoi a chyhoeddi'r Cyd-gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd canlynol sy'n cael eu cydlynu gan Weinidogion yr Alban:

- Cegddu Silff y Gogledd
- Macrell Silff y Gogledd
- Swtan Glas Silff y Gogledd

Os yw'r newid arfaethedig hwn yn cael ei weithredu, bydd y cyfeiriad at yr awdurdod sy'n gyfrifol am gyflwyno'r FMP yn cael ei ddiwygio yn Atodiad A i'r JFS. Bydd pob un o'r FMPs arfaethedig yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad. Mae'n rhaid i awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol (sy'n cynnwys yr awdurdodau polisi pysgodfeydd a'r Sefydliad Rheoli Morol) arfer eu swyddogaethau yn unol â'r polisiau sydd wedi'u cynnwys mewn JFS neu FMPs sy'n gymwys iddynt. Byddai Gweinidogion Cymru yn parhau i gyfrannu at weithredu FMPs mewn ffordd briodol trwy, er enghraifft, rheoli'r broses o drwyddedu llongau o Gymru yn yr ardaloedd hynny. Yn unol â'r amcan mynediad cyfartal, bydd unrhyw gyfyngiadau ar longau yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol ac ar yr angen i amddiffyn stociau a'r amgylchedd morol. Yn gyfnewid am hyn, bydd llongau yn cydymffurfio â'r rheolau a osodir gan yr awdurdod polisi pysgodfeydd y maent yn pysgota yn ei ddyfroedd.

Bydd dull yr awdurdodau polisi pysgodfeydd o weithio mewn partneriaeth a rheoli ar y cyd trwy Fframwaith Cyffredin ar Reoli a Chefnogi Pysgodfeydd y DU yn parhau. Pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cyflwyno, byddai rhanddeiliaid yn parhau i allu ymgysylltu'n llawn â gwaith datblygu'r holl gynlluniau trwy'r prosesau sydd wedi'u rhoi ar waith gan yr awdurdodau eraill sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi'r cynlluniau.

Datblygu FMPs yn y dyfodol

Bydd modd addasu ac ailadrodd FMPs dros amser trwy gasglu rhagor o dystiolaeth a chyflwyno mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau. Rhaid adolygu pob cynllun o leiaf bob chwe blynedd ar ôl ei gyhoeddi, neu'n gynt os oes angen, a'i ddiwygio neu ei ddisodli (yn dilyn ymgynghoriad) er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben wrth gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig.

Yn ogystal ag adolygu FMPs unigol, mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid llunio adroddiad bob tair blynedd ar y JFS a sut mae ei fframwaith polisi yn gweithio tuag at yr wyth amcan yn y Ddeddf, neu sut mae wedi'u cyflawni. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd yr FMPs o safbwynt sut maent wedi cael eu gweithredu a sut maent wedi effeithio ar lefelau stoc yn y DU. Disgwylir yr adroddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2025.

Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth

Mae gwybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i chynnwys yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad JFS sydd i'w weld yn yr adran dogfennau cysylltiedig ar dudalen yr ymgynghoriad.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet sydd ar gael yn: [Consultation principles: guidance - GOV.UK](https://www.gov.uk/government/consultation-principles) (www.gov.uk)

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw at consultation.coordinator@defra.gov.uk

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1: Ydych chi am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol (gweler yr adran "Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth" uchod am fwy o fanylion)?

Ydw / Nac ydw

C2: Ydych chi'n cytuno â'r dyddiadau cyhoeddi newydd arfaethedig ar gyfer yr FMPs a nodir yn Nhabl 1 yn y ddogfen ymgynghori hon?

Ydw / Nac ydw / Dim barn

Os hoffech chi roi esboniad am eich ymateb, gwnewch hynny yma:

C3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno'r newidiadau technegol a'r newidiadau eraill i FMPs arfaethedig fel y'u nodir yn Nhabl 2 yn y ddogfen ymgynghori hon?

Ydw / Nac ydw / Dim barn

Os hoffech chi roi esboniad am eich ymateb, gwnewch hynny yma:

C4: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu FMP newydd ar gyfer Gwichiad yng Ngogledd Iwerddon fel y'i nodir yn Nhabl 3 yn y ddogfen ymgynghori hon?

Ydw / Nac ydw / Dim barn

Os hoffech chi roi esboniad am eich ymateb, gwnewch hynny yma:

C5: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru fod yn awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi FMPs sy'n cwmpasu parth Cymru yn unig?

Ydw / Nac ydw / Dim barn

Os hoffech chi roi esboniad am eich ymateb, gwnewch hynny yma:

Mae'r porth ar-lein yn cynnwys blwch testun rhydd lle gallwch chi wneud sylwadau eraill os ydych chi eisiau.

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn bennaf trwy borth ar-lein Citizen Space, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Fodd bynnag, byddwn yn derbyn ymatebion e-bost a chopi caled gan bobl na allant gael mynediad at yr arolwg ar-lein. Mae ffurflen ymateb i'w defnyddio ar gyfer ymatebion e-bost a chopi caled wedi'i chynnwys yn ATODIAD 2 i'r ddogfen hon, neu mae ar gael yn yr adran dogfennau cysylltiedig ar wefan Citizen Space.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras a Braille.

Cyfnod yr Ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn para 6 wythnos, gan ddechrau am 10:00 ar 10 Hydref 2024 ac yn dod i ben ar 21 Tachwedd 2024. Rhaid derbyn ymatebion erbyn 23:59 ar 21 Tachwedd 2024.

Ymatebion

Sut i ymateb:

- Ar-lein trwy borth ar-lein Citizen Space: <https://consult.defra.gov.uk/>
- Drwy e-bost:
- JFSAmendment@defra.gov.uk
- Drwy'r post: JFS Team, Defra, Seacole Building, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn crynhoi'r ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb ar wefan Llywodraeth y DU a gwefannau'r holl weinyddiaethau datganoledig.

Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

JFSAmendment@defra.gov.uk

Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/22/contents>

Mae'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd ar gael yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/joint-fisheries-statement-jfs.cy>

ATODIAD 1: Drafft Ymgynghorol o'r Diwygiadau Arfaethedig i Atodiad A y JFS

Atodiad A: Rhestr o'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sydd yn yr arfaeth

Mae'r tabl isod yn rhestru'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs) y bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd (FPAs) yn eu paratoi ac yn eu cyhoeddi. Mae'r tabl hwn yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 2 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020. Dyma esboniad o bennawd pob colofn:

- **Teitl yr FMP:** Yr enw a ddewiswyd ar gyfer yr FMP.
- **Amserlen paratoi a chyhoeddi:** Yr amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r FMP.
- **Stoc(iau):** Y stoc(iau) mae'r FMP yn delio â nhw– naill ai un stoc neu nifer o stociau.
- **Ardal bysgota (isardaloedd ac adrannau ICES):** Yr ardal(oedd) a ddaw o dan y cynllun. Isardaloedd ac adrannau ICES yw'r ardaloedd ystadegol sy'n cael eu defnyddio gan ICES wrth roi cyngor rheoli pysgodfeydd (gweler www.ices.dk/data/maps/pages/default.aspx).
- **Cynllun ar y Cyd?** ; A yw'r Cynllun Rheoli Pysgodfeydd yn gynllun ar y cyd rhwng FPAs.
- **Awdurdod(au) sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun:** Yr awdurdod neu awdurdodau sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi'r cynllun. Gall fod hyd at bedwar awdurdod polisi pysgodfeydd yn gweithredu ar y cyd mewn cynllun.
- **Awdurdod Trefnu:** Yr FPA fydd yn trefnu'r gwaith o baratoi a rheoli'r cynllun ar ran yr FPAs eraill sy'n gweithredu ar y cyd.
- **Rheswm nad yw ar y cyd:** Y rheswm pam fod y cynllun yn cael ei baratoi gan yr awdurdod ar ei ben ei hun.

Teitl yr FMP	Amserlen paratoi a chyhoeddi	Stoc(iau)	Ardal Bysgota (Isardaloedd ac adrannau ICES)	Ar y cyd?	Awdurdod(au) sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun				Awdurdod Trefnu	Rheswm nad yw ar y cyd?
					DAERA	Defra	Llywodraeth yr Alban	Llyw. Cymru		
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Penfras Ysgafell y Gogledd	2022 - 2026	Penfras	Arfordir Gorllewin yr Alban, Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4, 6a, 7d)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	

Teitl yr FMP	Amserlen paratoi a chyhoeddi	Stoc(iau)	Ardal Bysgota (Isardaloedd ac adrannau ICES)	Ar y cyd?	Awdurdod(au) sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun				Awdurdod Trefnu	Rheswm nad yw ar y cyd?
					DAERA	Defra	Llywodraeth yr Alban	Llyw. Cymru		
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Penfras Cefnfor Iwerydd	2022 - 2026	Penfras	Rockall, Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd (6b)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Hadog Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban	2022 - 2026	Hadog	Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (4, 6a)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Hadog Cefnfor Iwerydd	2022 - 2026	Hadog	Rockall, Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd (6b)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Gwyniaid Arfordir Gorllewin yr Alban	2022 - 2026	Gwyniad môr	Arfordir Gorllewin yr Alban (6)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Gwyniaid Môr y Gogledd	2022 - 2026	Gwyniad môr	Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4, 7d)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Chwytylniaid Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban	2022 - 2026	Chwitlyn Glas	Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (4, 6)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Penddu Ysgafell y Gogledd	2022 - 2026	Penddu	Ysgafell y Gogledd (4, 6, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy	Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cythreuliaid Môr Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban	2022 - 2026	Cythraul y Môr	Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (4, 6)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Lledod Mair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban	2022 - 2026	Lledod Fair	Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (4a, 6a, 6b)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	

Teitl yr FMP	Amserlen paratoi a chyhoeddi	Stoc(iau)	Ardal Bysgota (Isardaloedd ac adrannau ICES)	Ar y cyd?	Awdurdod(au) sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun				Awdurdod Trefnu	Rheswm nad yw ar y cyd?
					DAERA	Defra	Llywodraeth yr Alban	Llyw. Cymru		
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Honosiaid Ysgafell y Gogledd	2022 - 2026	Honos	Ysgafell y Gogledd (Dyfroedd y DU 2a, 4a, 5b, 6)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cimychiaid Norwy Môr y Gogledd	2022 - 2026	Cimwch Norwy	Môr y Gogledd (4)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cimychiaid Norwy Arfordir Gorllewin yr Alban	2022 - 2026	Cimwch Norwy	Arfordir Gorllewin yr Alban (6)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Mecryll Ysgafell y Gogledd	2022 - 2026	Mecryll	Ysgafell y Gogledd (Dyfroedd y DU 2a, 4, 5b, 6, 7a 7d, 7e, 7f, 7h, 7g.)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy	Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Sgadan/Penwaig Iwerydd/Sgandinafia	2022 - 2026	Sgadan/Penwaig	Môr y Gogledd a'r Arctig (4a; Dyfroedd y DU 2a)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Sgadan/Penwaig Môr y Gogledd	2022 - 2026	Sgadan/Penwaig	Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4, 7d)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Sgadan/Penwaig Arfordir Gorllewin yr Alban (a Clyde)	2022 - 2026	Sgadan/Penwaig	Arfordir Gorllewin yr Alban (5b, 6)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pysgod Arian Mawr Môr y Gogledd	2022 - 2026	Pysgodyn Arian Mawr	Môr y Gogledd (2a, 4)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pysgod Arian Mawr Arfordir Gorllewin yr Alban	2022 - 2026	Pysgodyn Arian Mawr	Arfordir Gorllewin yr Alban (5b, 6a)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy		Llywodraeth yr Alban	

Teitl yr FMP	Amserlen paratoi a chyhoeddi	Stoc(iau)	Ardal Bysgota (Isardaloedd ac adrannau ICES)	Ar y cyd?	Awdurdod(au) sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun				Awdurdod Trefnu	Rheswm nad yw ar y cyd?
					DAERA	Defra	Llywodraeth yr Alban	Llyw. Cymru		
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Swtanod Glas Ysgafell y Gogledd	2022 - 2026	Swtan Glas	Ysgafell y Gogledd (Dyfroedd y DU 2a, 4, 5b, 6, 7a 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j, Dyfroedd y DU 12b)	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy	Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Draenogiaid Môr	2022 - 2023	Draenog y Môr	Dyfroedd Cymru a Lloegr (4b, 4c, 6a, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Ydy		Ydy		Ydy	Defra (Lloegr)	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cocos	2022-2025	Cocos	Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cocos	2022-2028	Cocos	Dyfroedd Cymru (7a, 7g, 7f)	Na					Llywodraeth Cymru	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Crancod a Chimychiaid	2021-2023	Crancod, Cimychiaid	Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Crancod a Chimychiaid	2022-2026	Crancod, Cimychiaid	Dyfroedd Cymru (7a, 7g, 7f)	Na					Llywodraeth Cymru	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn y Brenin	2021-2023	Cregyn y Brenin	Dyfroedd Cymru a Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Ydy		Ydy		Ydy	Defra (Lloegr)	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn Moch yn nyfroedd Lloegr	2021-2023	Cregyn y Moch	Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn Moch yn nyfroedd Cymru	2022-2028	Cregyn y Moch	Dyfroedd Cymru (7a, 7g, 7f)	Na					Llywodraeth Cymru	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn y Frenhines	2023-2025	Cregyn y Frenhines	Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig

Teitl yr FMP	Amserlen paratoi a chyhoeddi	Stoc(iau)	Ardal Bysgota (Isardaloedd ac adrannau ICES)	Ar y cyd?	Awdurdod(au) sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun				Awdurdod Trefnu	Rheswm nad yw ar y cyd?
					DAERA	Defra	Llywodraeth yr Alban	Llyw. Cymru		
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol Môr Iwerddon	2022-2026	Lleden goch, penfras, hadog, lleden chwythig, gwyniad môr, cimwch Norwy	Môr Iwerddon (7a dyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr yn unig)	Ydy	Ydy	Ydy		Ydy	DAERA (Gogledd Iwerddon)	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pelagig Môr Iwerddon	2022-2023	Sgadan/Penwaig	Môr Iwerddon (7a dyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr yn unig)	Ydy	Ydy	Ydy		Ydy	DAERA (Gogledd Iwerddon)	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn Môr Heb Gwota Gogledd Iwerddon	2022-2026	Cranc coch, cranc llygatgoch, cimwch, cregyn y brenin a chregyn y frehines	Dyfroedd Gogledd Iwerddon (7a, 6a)	Na					DAERA (Gogledd Iwerddon)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel	2023-2026	Cythraul y môr, penfras, hadog, lleden goch, morgath ddreiniog, lleden chwythig, honos glas, siarcod y dyfnfor, chwitlyn glas, morgath lygaid-bach, grenadwr trwyngwrwn, merfog coch, morgathod, morgath gribog, morgath felen, morgath gron, morgath fannog, morgath lygadog, lleden Fair, lleden fair bedwar smotyn, morlas, cimwch Norwy, gwyniad môr	Y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr (7e, 7f, 7g, 7h dyfroedd Cymru a Lloegr yn unig)	Ydy		Ydy		Ydy	Defra (Lloegr)	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel	2023-2026	Sgadan/penwaig, pennog Mair, pysgodyn arian mawr, marchfacrell, brwyniad	Y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr (7e, 7f, 7g, 7h dyfroedd Cymru a Lloegr yn unig)	Ydy		Ydy		Ydy	Defra (Lloegr)	

Teitl yr FMP	Amserlen paratoi a chyhoeddi	Stoc(iau)	Ardal Bysgota (Isardaloedd ac adrannau ICES)	Ar y cyd?	Awdurdod(au) sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun				Awdurdod Trefnu	Rheswm nad yw ar y cyd?
					DAERA	Defra	Llywodraeth yr Alban	Llyw. Cymru		
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Lledood cymysg De Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel	2021-2024	Lleden goch, torbwyt, lleden wrachwitch lleden fannog, lleden lefn, lleden chwythig, lleden dywod, lleden fwd, lleden Ffrengig	De Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4b, 4c, 7d)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Marchfeci yll Môr y Gogledd	2022-2026	Marchfacciell	Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4, 7d)	Na					Llywodraeth yr Alban	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Corbenwaig Môr y Gogledd a Sianel Lloegr	2022-2025	Corbennog	Môr y Gogledd a Sianel Lloegr (4, 7d, 7e)	Na					Defra (Lloegr)	
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Merfog Môr	2023-2025	Merfog Du, Merfog 'gilthead'	Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd rhywogaethau Gwrachod	2023-2026	Gwrachen Fair, cleiriach y gwymon, grŵp rhywogaethau'r gwrachod, gwrachen eurban, gwrachen y graig, gwrachen resog	Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol Heb Gwota De Môr y Gogledd	2023-2025	Chwyrnwr coch, ysgyfarnog fôr (tub gurnards), ystifflog, môr-lawes, octopws, pysgodyn darn arian, mingrwn coch, morgi lleiaf, chwyrnwr llwyd, morgi llyfn	De Môr y Gogledd (4b, 4c, dyfroedd Lloegr yn unig)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig

Teitl yr FMP	Amserlen paratoi a chyhoeddi	Stoc(iau)	Ardal Bysgota (Isardaloedd ac adrannau ICES)	Ar y cyd?	Awdurdod(au) sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun				Awdurdod Trefnu	Rheswm nad yw ar y cyd?
					DAERA	Defra	Llywodraeth yr Alban	Llyw. Cymru		
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol Heb Gwota'r Sianel	2022-2023	Chwyrnwr coch, ysgyfarnog fôr (tub gurnards), ystifflog, môrlawes, octopws, pysgodyn darn arian, mingrwn coch, morgi lleiaf, chwyrnwr llwyd, lleden lefn, lleden fannog, morgi llyfn, codyn llwyd, torbwt	Sianel Lloegr (7d, 7e)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Morgathod De Môr y Gogledd a'r Sianel	2023-2025	Morgath ddreiniog, morgath felen, morgath donnog, morgathod, morgath lygaid-bach, morgath fannog, morgath lygadog, morgath bigog	De Môr y Gogledd a Sianel Lloegr 4b, 4c, 7d, 7e – dyfroedd Lloegr yn unig)	Na					Defra (Lloegr)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig
Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Gwichiaid	2024-2027	Gwichiaid	Dyfroedd Gogledd Iwerddon (7a, 6a)	Na	Ydy				DAERA (Gogledd Iwerddon)	Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig

ATODIAD 2: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Enw:

C1: Ydych chi am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol (gweler yr adran "Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth" uchod am fwy o fanylion)?

Ydw / Nac ydw

C2: Ydych chi'n cytuno â'r dyddiadau cyhoeddi newydd arfaethedig ar gyfer yr FMPs a nodir yn Nhabl 1 yn y ddogfen ymgynghori hon?

Ydw / Nac ydw / Dim barn

Os hoffech chi roi esboniad am eich ymateb, gwnewch hynny yma:

C3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno'r newidiadau technegol a'r newidiadau eraill i FMPs arfaethedig fel y'u nodir yn Nhabl 2 yn y ddogfen ymgynghori hon?

Ydw / Nac ydw / Dim barn

Os hoffech chi roi esboniad am eich ymateb, gwnewch hynny yma:

C4: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu FMP newydd ar gyfer Gwichiad yng Ngogledd Iwerddon fel y'i nodir yn Nhabl 3 yn y ddogfen ymgynghori hon?

Ydw / Nac ydw / Dim barn

Os hoffech chi roi esboniad am eich ymateb, gwnewch hynny yma:

C5: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru fod yn awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi FMPs sy'n cwmpasu parth Cymru yn unig?

Ydw / Nac ydw / Dim barn

Os hoffech chi roi esboniad am eich ymateb, gwnewch hynny yma:

Mae'r porth ar-lein yn cynnwys blwch testun rhydd lle gallwch chi wneud sylwadau eraill os ydych chi eisiau.